# Rhaglen Waith AWTTC 2025-2028

AWTTC
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre

| Amcan | | VPAG* yn effeithio arno? | Canlyniad bwriadedig |
|---|---|---|---|
| | **Sganio'r gorwel a rhagolygon ariannol** | | |
| **1** | Cynnal ymarfer mapio ledled Cymru i benderfynu ar y dirwedd bresennol o ran sganio'r gorwel/rhagolygon ariannol, nodi unrhyw fylchau, dyblygiadau a rhwystrau, a chwmpasu datrysiad posibl. | ✓ | Deall gofynion rhanddeiliaid i lywio datblygiad gwasanaeth sganio'r gorwel a rhagolygon ariannol gwell ar gyfer Cymru. |
| **2** | Datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymarfer mapio i gefnogi datblygiad y gwasanaeth sganio'r gorwel a rhagolygon ariannol cenedlaethol ar gyfer Cymru. | ✓ | Bydd y tasgau allweddol sy'n ofynnol i gefnogi datblygiad y prosesau sganio'r gorwel a rhagolygon ariannol yn cael eu diffinio a'u blaenoriaethu. |
| **3** | Datblygu dulliau, prosesau, allbynnau a mecanweithiau adrodd ar gyfer sganio'r gorwel a darparu rhagolygon ariannol. | ✓ | Bydd y broses o adrodd gan ddefnyddio cronfa ddata mynediad at feddyginiaethau AWTTC yn cael ei datblygu a'i mireinio fel bod pob rhanddeiliad yn cael digon o wybodaeth am sganio'r gorwel a rhagolygon ariannol. Bydd hyn yn cynorthwyo byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i greu cynlluniau gwasanaeth ac ariannol ac yn darparu gwybodaeth ar sail 'Unwaith i Gymru'. |
| **4** | Monitro meddyginiaethau piblinell. | | Cefnogi cynlluniau gwasanaeth a rhagolygon ariannol, gan alluogi'r GIG yng Nghymru i fod yn fwy parod a darparu mynediad amserol at feddyginiaethau sy'n glinigol effeithiol ac yn gosteffeithiol. |
| | **Ecosystem meddyginiaethau** | | |
| **5** | Datblygu prosesau a systemau newydd i fynd i'r afael â bylchau presennol mewn cyngor i Gymru y tu allan i ganllawiau Gwerthuso Technoleg NICE. | ✓ | Mae gan bobl yng Nghymru fynediad amserol at feddyginiaethau lle mae angen clinigol nad yw wedi'i ddiwallu (y bobl iawn, yr amser iawn, y meddyginiaethau iawn). |
| **6** | Mewnbwn i gydweithrediadau cenedlaethol ar fynediad at feddyginiaethau. | ✓ | Alinio prosesau a systemau a nodi meysydd ar gyfer cydweithio i wella effeithlonrwydd, lleihau dyblygu a darparu cyngor cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth. |
| **7** | Cyflwyno asesiadau meddyginiaethau. | ✓ | Mae gan bobl yng Nghymru fynediad amserol at feddyginiaethau lle mae angen clinigol heb ei ddiwallu. |

*VPAG = Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio (VPAG). Rhagor o wybodaeth yma: Raglen Fuddsoddi'r Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau (VPAG) – CTTCG.gig.cymru

| Amcan | | VPAG* yn effeithio arno? | Canlyniad bwriadedig |
|---|---|---|---|
| | **Rhoi meddyginiaethau ar waith** | | |
| **8** | Gwella'r prosesau a'r mecanweithiau a reolir gan y Tîm Mynediad at Feddyginiaethau Masnachol (CMAT) i sicrhau bod prosesau cadarn ar waith i hwyluso mynediad amserol at feddyginiaethau sy'n gysylltiedig â threfniant masnachol. Sicrhau y gall byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru gael y gwerth mwyaf posibl am arian ar gyfer meddyginiaethau a gymeradwywyd gan NICE ac AWMSG. | ✓ | Sicrhau bod y GIG yng Nghymru yn cael y meddyginiaethau am y pris iawn fel bod y bobl iawn yn derbyn triniaethau sy'n glinigol effeithiol ac yn gosteffeithiol ar yr amser iawn. |
| **9** | Gweithredu system Cyffuriau Cost Uchel (HCD) Blueteq i wella dulliau llywodraethu clinigol ac ariannol ar gyfer meddyginiaethau cost uchel, gan ddarparu proses safonol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn GIG Cymru i leihau amrywiad mewn mynediad at feddyginiaethau a gwella mynediad at ddata. | ✓ | Gwell dull o lywodraethu a monitro'r defnydd o gyffuriau cost uchel ledled Cymru, gan leihau amrywiad mewn arferion rhagnodi ar draws byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau a darparu data i ategu penderfyniadau clinigol, diogelwch cleifion a mynediad masnachol. |
| **10** | Datblygu proses i gefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflwyno meddyginiaethau newydd a monitro'r nifer sy'n defnyddio meddyginiaethau effaith uchel, e.e. mapio llwybrau cenedlaethol ar gyfer therapïau cymhleth/newydd. | ✓ | Darparu dull 'Cymru Gyfan' o gynllunio a chyflwyno meddyginiaethau a gymeradwywyd gan AWMSG a NICE, gan gefnogi'r defnydd cyson o feddyginiaethau sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar wasanaethau a/neu lwybrau clinigol presennol. |
| **11** | Cefnogi mynediad at feddyginiaethau cronfa driniaeth newydd. | ✓ | Mae gan bobl (cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol) fynediad amserol a theg at feddyginiaethau sy'n glinigol effeithiol ac yn gosteffeithiol. |
| | **Data** | | |
| **12** | Cydweithio â DHCW i gael mynediad at setiau data newydd gan gynnwys y rhai o fewn yr Adnodd Data Cenedlaethol (NDR) a'r Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol (DMTP), a fydd yn cefnogi rhagnodi diogel, effeithlon ac effeithiol i gleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. | ✓ | Mae AWTTC yn cydweithio â DHCW a rhanddeiliaid eraill i ddarparu manteision ystyrlon o setiau data newydd. |
| **13:** | Sefydlu setiau data newydd i allu nodi amrywiad diangen mewn dulliau rhagnodi. | ✓ | Mae allanolion rhagnodi yn cael eu nodi ar gyfer ymchwiliad gan y bwrdd iechyd i gyflawni newid cadarnhaol. Bydd y data hyn yn cynnwys tystiolaeth o ganlyniadau/o'r byd go iawn lle bo modd. |

*VPAG = Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio (VPAG). Rhagor o wybodaeth yma: Raglen Fuddsoddi'r Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau (VPAG) – CTTCG.gig.cymru

| Amcan | | VPAG* yn effeithio arno? | Canlyniad bwriadedig |
|---|---|---|---|
| **14** | Defnyddio data presennol a data newydd i gefnogi'r penderfyniadau a wneir wrth optimeiddio meddyginiaethau. | ✓ | Mae AWTTC yn archwilio setiau data i ddatblygu dadansoddiadau a delweddiadau buddiol a darparu mewnwelediadau i'w defnyddio gan randdeiliaid. |
| **15** | Cynhyrchu adroddiadau data rheolaidd ac ad hoc. | | Mae gan randdeiliaid fynediad at wybodaeth pan fydd ei hangen arnynt. |
| **16** | Cynnal ffynonellau data a SPIRA. | | Mae gan randdeiliaid fynediad at wybodaeth pan fydd ei hangen arnynt ac mae SPIRA yn parhau i fod yn hygyrch ac yn addas at y diben. |
| | **Optimeiddio meddyginiaethau** | | |
| **17** | Datblygu a gweithredu strwythur llywodraethu a rhaglen waith ar gyfer Eich Meddyginiaethau, Eich Iechyd. | | Cefnogi'r cyhoedd a gweithwyr gofal iechyd i sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn cymryd eu meddyginiaethau mewn ffordd sy'n sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl, a bod gwastraff sy'n gysylltiedig â defnyddio meddyginiaethau yn cael ei leihau a bod cynaliadwyedd yn cael ei wella. |
| **18** | Adolygu a diweddaru Fframwaith Optimeiddio Meddyginiaethau AWTTC. | | Mae prosesau ar gyfer sut rydym yn blaenoriaethu ein gwaith ac yn datblygu pob un o'n hallbynnau yn fwy tryloyw ac yn parhau i fod yn addas at y diben. |
| **19** | Datblygu a chyhoeddi set o Ddangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2029-2031. | | Datblygir set newydd o Ddangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau GIG Cymru ac yn parhau i ysgogi dulliau rhagnodi rhesymol. |
| **20** | Cyflwyno adnoddau optimeiddio meddyginiaethau. | | Mae rhanddeiliaid yn parhau i gael mynediad at adnoddau sy'n diwallu eu hanghenion ac yn cefnogi dulliau rhagnodi wedi'u hoptimeiddio. |
| | **Economeg iechyd** | | |
| **21** | Sefydlu prosesau i ymgymryd â modelu economaidd iechyd de-novo i gefnogi allbynnau AWTTC. | | Darparu dull tryloyw, cyson ac effeithlon o fodelu o'r newydd ar draws amryw raglenni gwaith AWTTC. |
| **22** | Parhau i ddarparu arbenigedd economeg iechyd i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a blaenoriaethau sy'n canolbwyntio ar werth. | | Mae gwerth a chost-effeithiolrwydd yn parhau i gael eu hystyried yn allbynnau AWTTC sydd â'r nod o ddarparu gwerth i GIG Cymru. |

*VPAG = Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio (VPAG). Rhagor o wybodaeth yma: Raglen Fuddsoddi'r Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau (VPAG) – CTTCG.gig.cymru